




Annwyl Riant/Ofalwr,

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd, symlach a sy'n fwy ymatebol i gwrdd ag anghenion plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledau. Bydd y newidiadau hyn yn digwydd yn raddol dros y blynyddoedd nesaf yn dilyn yr amserlen isod:



Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi ei phasio a bydd yn cael ei chefnogi gan Gôd newydd. Mae hyn yn amlinellu sut y bydd y syniadau o'r ddeddf yn gweithio'n ymarferol. Cafodd y côd drafft ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018 a chynhaliwyd ymgynghoriad hyd at 22 Mawrth 2019. Bydd y Côd terfynol yn cael ei gyhoeddi tuag at ddiwedd 2019.

### Negeseuon Allweddol:

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anabledau Dysgu (AAD). Bydd plant gydag ADY yn cael eu cefnogi drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig nawr yn cael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Bydd y côd newydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed, sy'n golygu y bydd colegau addysg bellach a cholegau annibynnol arbenigol hefyd yn cael eu cynnwys (ond nid addysg uwch na phrentisiaethau.)
- Fe fydd yna bwyslais ar ddyheadau a gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gydag ADY.



- Mae'r system raddedig sef gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau yn cael eu disodli ac o dan y Côd newydd bydd yr holl blant y nodir fod ganddynt ADY yn cael Cynllun Datblygu Unigol. Bydd y Cynllun Datblygu Unigol yn disodli'r Cynlluniau Addysg Unigol presennol.
- Bydd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cynnal gan yr ysgol. Ond lle yr ystyrir ei bod yn afresymol i'r ysgol wneud hynny (fel gyda'r rhai sydd ag ADY mwy difrifol neu gymhleth) fe all yr Awdurdod Lleol eu cynnal.
- Bydd cyfranogiad cynyddol gan blant, unigolion ifanc, rhieni a gofalwyr yn y broses o greu a chynnal y Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gynllunio wedi'i ganoli o amgylch yr unigolyn.
- Y gobaith yw y bydd cydweithio mwy clos a gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn ein helpu i osgoi unrhyw anghytuno.
- Fe fydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg yn ôl y gofyn.
- Bydd gan bob plentyn ac unigolyn ifanc sydd â Chynllun Datblygu Unigol hawl cyfartal i apelio i dribiwnlys.

Os hoffech ddarllen y côd drafft mae fersiwn lawn a fersiwn hawdd ei ddeall ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://lyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol neu gyngor cysylltwch â Chydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol eich ysgol, neu gallwch gysylltu â SNAP Cymru sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth annibynnol rhad ac am ddim i rieni drwy ymweld â: <http://www.snapcymru.org/?lang=cy> neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar: 0808 801 0608

Yn gywir,

.....

